CYLCHLYTHYR RHWYDWAITH CYFARFODYDD

-Cyfweliad gyda Val Owen, un o aelodau cyntaf y Rhwydwaith

· Erthygl ar Hawliau Dynol a Chyfarfodydd Teulu.

· Adroddiad am Ymchwil gan Abyd Quinn Aziz

Beth Yw Rhwydwaith Cyfarfodydd Teulu Cymru Gyfan?

Cyfweliad gyda Val Owen, Cyfarwyddwr Ymddiriedolaeth Cartref Bontnewydd

Rheolwraig Prosiect Cyfarfodydd Teulu ac un o Aelodau Cyntaf Rhwydwaith Cyfarfodydd Teulu Cymru Gyfan

Pam y teimlwyd angen am rwydwaith ar wahân i Gymru? Roedd nifer o ffactorau, ond, yn bennaf, oherwydd sefydlu Llywodraeth Cynulliad Cymru roedd angen i ni ymateb i anghenion mentrau yng Nghymru ac roeddem yn teimlo nad oeddem yn cyflawni hynny drwy Rwydwaith y DU. Sylweddolwyd hefyd bod y gwasanaethau yng Nghymru i gyd yn debyg o ran maint a chyllideb ac felly gallem rannu profiadau a heriau.

Beth oeddech chi am ei gael allan ohono? Roeddem yn awyddus i sicrhau llais cryfach wrth lobïo yn Awdurdodau Lleol Cymru a medru ymateb i anghenion Cymru, megis y rhai a amlinellir yn Rhoi Plant yn Gyntaf. Roeddem yn credu ei bod yn ymarferol i ni bwyso am wasanaeth Cyfarfodydd Teulu ym mhob un o'r 22 Awdurdod Lleol yng Nghymru yn ogystal â'r llywodraeth yn ganolog. Un peth arall oedd ein bod am beidio â gorfod treulio oriau'n teithio ar y trên i Lundain bedair gwaith y flwyddyn. Rydym yn trefnu'r cyfarfodydd o'r Rhwydwaith mewn gwahanol fannau yng Nghymru ac felly mae'n haws i bobl ddod iddynt yn rheolaidd.

Faint o brosiectau/siroedd sydd yn rhan ohono? Cafwyd cynrychiolaeth o 19 o Awdurdodau Lleol ar y mwyaf yn y Rhwydwaith.

Beth mae'r rhwydwaith wedi ei gyflawni hyd yma? Yn Nhachwedd 2006 fe wnaethom gynnal a chadeirio'r 3edd Gynhadledd Rhwydwaith Cyfarfodydd Teulu Ewropeaidd a chynhyrchu adroddiad o'r gynhadledd honno. Rydym wedi cyflwyno hyfforddiant i Dîm Cynghori Comisiynydd Plant Cymru. Mae'r Rhwydwaith wedi cyflwyno tystiolaeth, ar y cyd â 2 aelod o deulu, i'r Adolygiad o Ddiogelu Plant sy'n Agored i Niwed yn y Cynulliad Cenedlaethol. Rydym wedi gwneud cyflwyniad i benaethiaid Gwasanaethau Plant ar Gyfarfodydd Teulu a Gofalwyr sy'n Berthnasau. Cynhyrchir Cylchlythyr Rhwydwaith Cyfarfodydd Teulu Cymru Gyfan ddwywaith y flwyddyn yn rheolaidd. Mae'r Rhwydwaith wedi ariannu prosiect ymchwil Cymru gyfan a gynhaliwyd gan Brifysgol Caerdydd, ac wedi cymryd rhan ynddo. Mae hefyd wedi sefydlu Hysbysfwrdd Rhyngrwyd Ewropeaidd. Mae cyfraniad Cymru'n amlwg yn y Pecyn Cymorth cenedlaethol ac fe ysgrifennais i, fel cynrychiolydd Cymru, ddwy bennod ar gyfer llawlyfr y Pecyn Cymorth. Yn olaf, ond nid yn lleiaf, rhaid cyfeirio at Gynhadledd Genedlaethol 2009.

Pa rai fu'r uchafbwyntiau? Roedd cyhoeddi'r Pecyn Cymorth yn Gymraeg yn sicr yn un o nifer o uchafbwyntiau. Rwy'n teimlo bod hyn, yn ogystal â phwyslais y Rhwydwaith ar ddwyieithrwydd, yn dangos mai dyma Rwydwaith Cymru ar gyfer prosiectau Cymru.

Beth fu'n sialens? Cadw'r Rhwydwaith i gamu ymlaen mewn modd cadarnhaol er gwaethaf y bygythiadau ariannol, prosesau tendro cystadleuol a chytundebau tymor byr.

Beth am ddyfodol y rhwydwaith? Parhau â gwaith y Rhwydwaith yn y tymor hir er gwaethaf newidiadau i'r personél, ad-drefnu gweinyddol a newidiadau i'r llywodraeth, ar lefel Llywodraeth Leol ac yn genedlaethol.

Cyfarfodydd Teulu: Dull sydd yn Seiliedig ar Hawliau gan Sharon Gay

Pan sonnir am hawliau dynol, mae pobl yn aml yn meddwl ei bod yn broses gyfreithiol heb lawer o gyswllt â bywyd bob dydd. Nid yw felly'n berthnasol i bobl gyffredin. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf gwnaed cryn lawer o waith o fewn y maes gofal cymdeithasol i newid y canfyddiad hwn ac i godi ymwybyddiaeth o'r modd y gweithredir yr hawliau hyn o ddydd i ddydd. Bwriedir yr erthygl hon fel cyflwyniad sylfaenol i'r ffordd y mae Cyfarfodydd Teulu'n gweithredu o fewn y model Hawliau Dynol. Mae'r cysyniad o Gyfarfodydd Teulu'n syrthio'n amlwg o fewn Erthygl 8 - Yr Hawl i Barch at Fywyd Preifat a Theuluol. Mae llawer o'n gwaith ni'n cynnwys gweithio gyda theuluoedd er mwyn iddynt ganfod drostynt eu hunain a oes modd cwrdd ag anghenion plentyn o fewn y cartref, ac os felly, sut i gwrdd â'r anghenion hynny, gan ddibynnu ar rwydweithiau teuluol ehangach lle bo modd. Pan nad oes modd i'r plant fyw gyda'u rhieni, gellir trefnu Cyfarfodydd Teulu i fynd i'r afael â materion sensitif megis cyswllt â'r rhieni naturiol. Rydym hefyd yn gweithio gyda phobl sydd yn methu â chael tŷ neu sydd â phroblem ymddygiad gwrthgymdeithasol a fydd yn effeithio ar y teulu ac ar aelodau'r gymuned.

Mae rhan allweddol o'n gwaith yn ymwneud ag Erthygl 6, sef yr hawl i gael gwrandawiad teg. Gellir cyflawni'r elfen hon o waith hawliau dynol ar sawl lefel. Mae plant ac aelodau o deuluoedd wedi dweud bod y broses o Gyfarfodydd Teulu wedi eu galluogi i deimlo eu bod yn cael gwrandawiad. Mewn amgylchiadau lle mae'r gwasanaethau cymdeithasol yn rhan o'r broses, mae'r model o Gyfarfod Teulu'n rhoi cyfle i'r teuluoedd gael mwy o ran yn y broses o wneud penderfyniadau, oherwydd maent yn cael mwy o gyfle i gael gafael ar wybodaeth gan weithwyr proffesiynol ac yn cael cyfle i gyflwyno eu cynlluniau hwy ar gyfer ymdrin â'r problemau neu'r pryderon. Weithiau mae angen i'r achosion lles plant fynd i'r llys. Mewn achosion felly gall cynlluniau teulu fod yn llais i'r teuluoedd beth bynnag fydd canlyniad yr achos yn y pen draw.

Gall rhan Cyfarfodydd Teulu fod yn allweddol i ddiogelu hawl plentyn i addysg (Protocol 1, Erthygl 2). Rydym wedi hwyluso cyfarfodydd i deuluoedd a gweithwyr proffesiynol i drafod problem presenoldeb yn yr ysgol.

Mae'r broses Cyfarfodydd Teulu'n un gynhwysol ac yn un sydd yn ystyried gofynion diwylliannol a chrefyddol teuluoedd. Mae'r cydlynwyr wedi cael eu hyfforddi mewn ymwybyddiaeth ddiwylliannol ac wedi ymrwymo i drefnu cyfarfodydd addas i'r teulu. Gofynnir iddynt hefyd ymhle, pa bryd a sut y dylai'r cyfarfod gael ei gynnal - a beth fyddai'r teulu'n ei hoffi'n fwyd a lluniaeth yn y Cyfarfod Teulu (Erthygl 9).

Mae Sharon yn Gydlynydd Cyfarfodydd Teulu gyda Phrosiect Cylch Teulu Caerdydd.

Ymchwil i Gyfarfodydd Teulu yng Nghymru: Adroddiad gan Abyd Quinn Aziz o Brifysgol Caerdydd

Mae llawer o ymchwil wedi ei wneud i gyfarfodydd teulu yn rhyngwladol ac yng Nghymru a Lloegr. Roedd y mwyafrif yn astudiaethau o brosiectau unigol. Cynhyrchodd llawer o'r astudiaethau wybodaeth am y cynnydd gyda Chyfarfodydd Teulu ac addasrwydd y model hwn ar gyfer Cymru, ac yng Ngogledd Cymru cynhaliwyd un o'r prosiectau Cyfarfodydd Teulu mwyaf arloesol. Mewn gwirionedd cynhaliwyd y Cyfarfod Teulu cyntaf yn y DU yng Ngogledd Cymru ym 1993. Byth oddi ar hynny mae'r nifer o brosiectau yng Nghymru wedi tyfu a bellach mae prosiectau Cyfarfodydd Teulu wedi eu mabwysiadu yn y mwyafrif o awdurdodau lleol Cymru ac maent yn parhau i gasglu adborth ansoddol gan y rhai sydd yn cymryd rhan ynddynt. Os am adolygiad o'r ymchwil i Gyfarfodydd Teulu yng Nghymru a Lloegr gweler Quinn Aziz (2007).

Yng Nghymru, fel yng ngweddill y DU, roedd yn anodd casglu data meintiol oherwydd y nifer fechan o deuluoedd a oedd yn rhan o bob prosiect. Yn sgil grant gan Tros Gynnal daeth cyfle i Dr Sally Holland, Dr Amanda Robinson a minnau i ddatblygu teclyn gwerthuso a fedrai gasglu cryn lawer o ddata cymaradwy o bob rhan o Gymru. Roeddem yn awyddus hefyd i'r teclyn fod yn un hyblyg heb greu haen ychwanegol o waith llenwi ffurflenni ar gyfer y prosiectau a bod yn seiliedig ar ychydig o ddata creiddiol y byddai pob prosiect am ei gasglu fel rhan o'u gwaith. Byddai hyn efallai'n cynhyrchu data canlyniadau o bob rhan o Gymru am gannoedd o Gyfarfodydd Teulu fel data craidd ac efallai y byddai'r prosiectau'n awyddus i ddatblygu eu cwestiynau ansoddol a meintiol ychwanegol eu hunain yn ôl yr angen. Roedd rhaid bod yn ofalus o ystyried yr holl agweddau megis perchnogaeth gwybodaeth a mynediad at wybodaeth. Yn bwysicach na dim roedd rhaid i unrhyw declyn gwerthuso ddeillio o ddymuniadau ac anghenion y prosiectau a'u defnyddwyr yn hytrach na bod wedi eu pennu o'r tu allan. Yr egwyddorion a ddefnyddid wrth lunio'r teclyn gwerthuso oedd y dylid gwneud y gwaith mewn modd cyfranogol, yn ysbryd athroniaeth y Cyfarfodydd Teulu, y dylai fod yn ddwyieithog (Cymraeg a Saesneg), y dylai edrych yn eang ar natur y canlyniadau i'w mesur a'r fethodoleg i'w defnyddio i fesur y canlyniadau, ac osgoi biwrocratiaeth lethol, gan ofalu bod yn fanwl gywir.

"cynhaliwyd y Cyfarfod Teulu cyntaf yn y DU yng Ngogledd Cymru ym 1993"

Yn Ionawr 2007 cyflwynwyd yr adroddiad The Development of ân all-Wales Evaluation Tool for Family GroupConferences: Final Research Report i Rwydwaith Cyfarfodydd Teulu Cymru Gyfan. Mae'r adroddiad yn cynnwys manylion am ddulliau'r ymchwil, y broses a'r teclyn ynghyd â dadansoddiad o'r data a gasglwyd yn ystod y 18 mis cyntaf. Ers hynny derbyniwyd grant pellach gan Cwlwm yng Ngogledd Cymru i gasglu data am gyfnod pellach o 18 mis, ac isod rhoddir crynodeb o ganfyddiadau'r ddau gyfnod.

Mae 8 prosiect yn cynnal Cyfarfodydd Teulu drwy Gymru. Mae nifer ohonynt yn gweithredu mewn mwy nag un awdurdod ac felly mae'r gwasanaeth Cyfarfodydd Teulu ar gael i bron bob awdurdodau lleol yng Nghymru (naill ai o fewn yr awdurdod neu'n annibynnol). Cymerodd pob prosiect ond un yng Nghymru ran yn y gwerthuso ac roedd gwahaniaeth sylweddol rhwng y prosiectau o ran maint a'r nifer o Gyfarfodydd Teulu a ddarperir gan bob un ac y cafwyd adroddiad amdanynt. Casglwyd data am bob teulu, gan nodi os oedd gwaith wedi ei wneud i baratoi pobl ar gyfer y cyfarfod teulu er nad aeth pob teulu ymlaen i gael cyfarfod. Cafodd yr achosion hyn eu cynnwys ar gais rhwydwaith Cymru gyfan i gydnabod y gwaith sydd yn cael ei wneud gyda'r teuluoedd hyn a hefyd oherwydd bod cymaint â hynny o ymyrraeth weithiau'n hybu newid er gwell o fewn y teuluoedd er na chynhelir cyfarfod fel y cyfryw. Yn aml mae'r teuluoedd yn dweud bod y broses o drafod yr angen am gyfarfod wedi eu harwain i ddatrys y problemau ac felly maent yn dewis peidio â chymryd rhan ymhellach.

Y data sydd wedi ei gynnwys yn yr adroddiad hwn, felly, yw :

Paratowyd 486 o deuluoedd

Paratowyd 3793 o bobl (8 ar gyfer pob achos ar gyfartaledd)

Aeth yn agos at 80% o'r teuluoedd hyn ymlaen i gael Cyfarfod Teulu

Mynychodd 2853 o aelodau o deuluoedd y cyfarfodydd (7 ym mhob cyfarfod ar gyfartaledd)

Plant oedd 736 o'r aelodau o deuluoedd a fynychodd (2 ym mhob cyfarfod ar gyfartaledd)

Mynychodd 686 o weithwyr proffesiynol y cyfarfodydd ac roedd gweithwyr proffesiynol mewn naw o bob deg o'r cyfarfodydd.

O ran dosbarthiad demograffig y teuluoedd a gymerodd ran yn y cyfarfodydd roedd y mwyafrif llethol yn bobl wyn o'r DU a'r Saesneg yn iaith gyntaf iddynt er i un o bob deg teulu ddweud eu bod yn siarad Cymraeg yn y cartref. Dywedodd ychydig yn fwy nag un o bob deg bod ganddynt blentyn ag anabledd ac mewn ychydig dan 15% roedd oedolyn ag anabledd. Roedd gan ychydig dros chwarter y teuluoedd blentyn ar y gofrestr amddiffyn plant ac roedd gan ychydig llai na'u chwarter blentyn â gorchymyn llys. Yn yr ail gyfnod casglwyd data ynglŷn â'r cwestiwn a oedd tad y plentyn wedi mynychu'r cyfarfod ai peidio. Cyflwynwyd y categori newydd hwn ar ôl i'r gwaith casglu gychwyn ac felly nid oes gwybodaeth am hyn gan bob prosiect. O'r rhai a atebodd ar hyn roedd y tad yn bresennol mewn cryn dipyn yn fwy na hanner y cyfarfodydd.

Defnyddiwyd rhan gyntaf y teclyn gwerthuso i gasglu data demograffig am y teulu, a oedd enwau rhai o'r plant ar y gofrestr amddiffyn plant a/neu'n destun gorchymyn llys, eu hiaith etc a phwy oedd yn bresennol yn y Cyfarfod Teulu. Roedd ail ran y teclyn yn gofyn i'r sawl a gyfeiriodd, i'r person ifanc, i'r prif ofalwr ac i unrhyw ofalwr beth oedd nod y Cyfarfod Teulu ac i ba raddau'r oedd wedi cwrdd â'r nod hwnnw.

Y nodau amlaf ar gyfer y cyfarfodydd (allan o 12 gosodedig) oedd cynnwys y teulu ehangach yn lles y plentyn, gwella'r berthynas a'r cyfathrebu a chefnogi rhieni yn y gwaith o ofalu am eu plentyn. Y rhai a nodwyd leiaf aml oedd atal troseddu, galluogi'r plentyn i ddychwelyd adref ac ymdrin ag addysg. Nodwyd bod mwy nag un nod i'r mwyafrif o'r cyfarfodydd

Gellir crynhoi drwy ystyried barn y gwahanol gyfranogwyr am ba mor dda roedd y cyfarfod wedi cwrdd â'r nod, os mai'r nod oedd cynnwys gweithiwyr proffesiynol yn lles y plant neu'r plentyn, dywedodd ychydig dros 90% o'r cyfeirwyr bod y nod wedi ei gyflawni'n llwyr neu bron yn llwyr, a dywedodd yn agos at 80% o'r bobl ifanc ac yn agos at 80% o'r prif ofalwyr fod hynny'n wir. Mae'r ffaith bod yr holl gyfranogwyr yn cytuno i'r fath raddau hefyd yn beth cadarnhaol. Pan oedd amddiffyn plant yn nod roedd 74% o'r cyfeirwyr, mwy na 80% o'r bobl ifanc a mwy na 80% o'r prif ofalwyr yn cytuno bod y nod wedi ei gyflawni'n llwyr neu bron yn llwyr.

Yn gyffredinol mae'r ffigurau hyn yn dangos bod tipyn dros hanner y rhai a gymerodd ran yn y broses yn teimlo bod yr ymyrraeth wedi cyrraedd y nod yn llwyr neu bron yn llwyr, ond pan oedd galluogi'r plentyn i ddychwelyd adref yn nod dim ond ychydig dan hanner y bobl ifanc oedd yn teimlo i'r nod gael ei gyflawni. Awgrymwn fod y cyfeirwyr, y bobl ifanc a'u gofalwyr yn teimlo'n gyffredinol, o ran y mwyafrif o'r rhesymau dros gynnal Cyfarfodydd Teulu yng Nghymru, eu bod yn cyflawni'r hyn a fwriadwyd. Gellir edrych ar y canfyddiadau hyn mewn amryw o ffyrdd megis eu cymharu'n ffafriol â phrosesau eraill lle gwneir penderfyniadau am ofal plant ac amddiffyn plant.

Yn ei ddatblygiad roedd y teclyn i ychwanegu at systemau casglu gwybodaeth presennol y prosiect ond nid yw hyn wedi cael ei fabwysiadu gan y prosiectau ac felly nid yw'r data bellach yn cael ei gasglu. Gwnaethom ymdrech hefyd i ddilyn y data gyda'r teuluoedd 6 mis ar ôl y Cyfarfod Teulu i gael gweld sut y datblygodd yr achos. Gan mai am dymor byr y mae'r prosiectau'n ymwneud â'r achosion a bod yr achosion yn cael eu cau a'r gweithwyr yn newid yn yr asiantaethau cyfeirio, dim ond cyfran fach o ddata teulu a gasglwyd a bydd hwnnw'n cael ei ddadansoddi ar wahân.

Yr elfennau arwyddocaol yn yr ymchwil hwn yw bod pobl ifanc a theuluoedd sydd yn defnyddio'r gwasanaethau, yn ogystal â gweithwyr proffesiynol, wedi cymryd rhan yn y gwaith o ddatblygu'r teclyn gwerthuso, ac mae hynny'n adlewyrchu ethos y Cyfarfod Teulu, bod y teclyn gwerthuso wedi ei lunio i gasglu data o Gymru gyfan am nifer helaeth o deuluoedd, a bod yr ymchwil, yn ogystal â chasglu data am deuluoedd, wedi gofyn am farn y rhai a gymerodd ran am ganlyniadau'r Cyfarfod Teulu, yn hytrach na gofyn a oeddent yn fodlon gyda'r broses. Hynny sy'n gwneud y darn hwn o ymchwil yn arwyddocaol ac yn unigryw.

Quinn Aziz (2007) Family Group Conferences: Where Next? Policies and Practices for the Future